# Cod Ymarfer
# Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol
# (Etholiadau'r Senedd)
# 2025

**Mae'r Cod hwn:**

- **i'w adnabod fel Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025**
- **yn dod i rym ar (add date)**

# Rhagarweiniad

## Cefndir

1.1 Cafodd y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau etholiadau ymgeiswyr unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd ei baratoi gan y Comisiwn Etholiadol yn dilyn ymgynghoriad ag unigolion a chyrff sydd â diddordeb, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd.

## Y pŵer i ddyroddi'r Cod hwn

1.2 Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i gymeradwyo gan y Senedd ac wedi'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 7, paragraff 20 i Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ('Gorchymyn 2025').

## Diffiniadau

1.3 Yn y Cod hwn, mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

Ystyr **'Deddf 2006'** yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyr **'Gorchymyn 2025'** yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025.

Mae **'swm priodol'** yn golygu swm o dreuliau etholiadol a benderfynir yn unol ag erthygl 66 o Orchymyn 2025.

Mae **'ymgeisydd'** yn golygu ymgeisydd unigol mewn etholiad etholaeth Senedd sy'n rhywun heblaw ymgeisydd rhestr plaid, fel y'i diffinnir gan erthygl 2 o Orchymyn 2025.

Mae i'r gair '**cost**' ei ystyr arferol o dreuliau eitem, neu'r treuliau sy'n gysylltiedig ag eitem. Mae'n cynnwys y '*swm priodol*' i'w drin fel swm sydd wedi'i ysgwyddo gan yr ymgeisydd o dan y gyfraith ar wariant tybiannol.

Mae **'asiant etholiadol'** yn golygu'r person a enwir ar ran ymgeisydd yn unol ag erthygl 39 o Orchymyn 2025.

Mae ystyr **'treuliau etholiadol'** wedi'i nodi yn erthygl 65 o Orchymyn 2025.

Ystyr '**eitem**' yw rhywbeth a allai fod yn destun gwariant. Mae'n cynnwys gwasanaethau a gweithgareddau yn ogystal â gwrthrychau.

Ystyr '**gwariant tybiannol**' yw treuliau etholiadol yr ystyrir eu bod wedi'u hysgwyddo pan gaiff eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau eu darparu am ddim neu am bris gostyngol ac y mae'r ymgeisydd neu rywun ar ran yr ymgeisydd yn eu defnyddio o dan erthygl 66 o Orchymyn 2025.

Ystyr '**rhestr plaid**' yw rhestr o ddim mwy nag wyth ymgeisydd plaid (ond gallai fod yn rhestr o un ymgeisydd yn unig) ar gyfer etholiad y Senedd.

Diffinnir **'treuliau personol'** yr ymgeisydd yn rhannol yn erthygl 37 o Orchymyn 2025. Rhaid cofnodi treuliau personol ymgeisydd ar ffurflen gwariant yr ymgeisydd ond nid ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant. Nid yw'r Cod hwn yn cynnig canllawiau ar yr hyn sy'n dreuliau personol neu nad ydynt yn dreuliau personol.

Mae **'plaid wleidyddol'** yn golygu plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran 2 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ystyr **'cyfnod a reoleiddir'** yw'r cyfnod pan fo'r rheolau gwariant yn gymwys i ymgeiswyr mewn etholiad y Senedd. Ar gyfer etholiadau'r Senedd, diffinnir y cyfnod a reoleiddir yn erthygl 49 o Orchymyn 2025. Mae'n dechrau ar y dyddiad priodol ac yn gorffen ar y diwrnod pleidleisio (diwedd y cyfnod pleidleisio) – tua phedair mis. Diffinnir y *dyddiad priodol* yn erthygl 49 o Orchymyn 2025 a bydd fel arfer yn golygu'r dyddiad sy'n disgyn bedwar mis cyn dyddiad yr etholiad, ond a all fod yn wahanol yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol a nodir yn erthygl 49.

Ystyr **'ffurflen'** neu **'ffurflen wariant'** yw ffurflen ar gyfer treuliau etholiadol ymgeisydd fel sy'n ofynnol gan erthygl 54 o Orchymyn 2025.

Ystyr **'RPA'** yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae **'terfyn gwariant'** yn cyfeirio at uchafswm yr arian y gall ymgeisydd ei ysgwyddo dan erthygl 48 o Orchymyn 2025.

Ystyr **'defnyddiwyd mewn etholiad'** yw rhywbeth a ddefnyddir at ddibenion ethol yr ymgeisydd fel y'i diffinnir yn erthygl 65 o Orchymyn 2025.

## Diben y Cod hwn

1.4 Mae'r Cod hwn yn rhoi arweiniad ar y canlynol:

- Yr hyn sy'n dod o dan Ran 1 neu Ran 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 neu nad yw'n dod o dan y rhannau hynny. Mae'r Rhannau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'dreuliau etholiadol' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i ymgeisydd adrodd arnynt.

- Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn rhestru'r materion y mae unrhyw dreuliau at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn cyfrif fel 'treuliau etholiadol' mewn perthynas â hwy. Mae Rhan 2 yn rhestru'r eithriadau.

- O dan ba amgylchiadau neu ym mha achosion yr ystyrir bod treuliau'n cael eu hysgwyddo neu beidio 'at ddibenion ethol ymgeisydd'. Mae'r Cod hwn yn ategu'r diffiniad o'r ymadrodd hwnnw yn erthygl 65 o Orchymyn 2025.

- Nid yw'r Cod hwn yn rhoi arweiniad i'r ymgeiswyr hynny sy'n sefyll etholiad i'r Senedd ar ran plaid wleidyddol (h.y. ymgeisydd rhestr plaid).

## Pa etholiadau mae’r Cod hwn yn eu cwmpasu?

1.5 Mae’r Cod hwn yn berthnasol ar gyfer etholiadau i Senedd Cymru.

## Y Cod hwn a chanllawiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn

1.6 Mae’r Cod hwn yn ganllawiau statudol ac fe’i paratoir o dan y pwerau a roddir gan baragraff 20, Atodlen 7 i Orchymyn 2025. Mae’n wahanol i ganllawiau eraill y mae’r Comisiwn Etholiadol yn eu cyhoeddi oherwydd ei fod wedi’i gymeradwyo gan y Senedd.

1.7 Mae’r Comisiwn Etholiadol hefyd yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar y cyfreithiau ar gyfer etholiadau.

1.8 Mae’r gyfraith ar wariant ymgeiswyr wedi’i nodi yng Ngorchymyn 2025. Mae trosolwg o’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwariant ymgeiswyr wedi’i nodi isod fel cyd-destun ar gyfer y Cod hwn.

1.9 Dylech gyfeirio at ganllawiau’r Comisiwn Etholiadol i gael gwybodaeth benodol am y rheolau ar gyfer pob etholiad. Mae canllawiau wedi’u diweddaru ynghylch pa etholiadau a gynhelir a pha reolau sy’n berthnasol bob amser ar gael ar wefan y Comisiwn Etholiad yn y cyfnod cyn etholiad.

## Beth yw canlyniadau torri’r Cod hwn?

1.10 Lle nad yw ymgeisydd neu asiant yn dilyn y Cod hwn gallant fod yn torri’r cyfreithiau sy’n ymwneud â threuliau etholiadol. Gallai hyn arwain at erlyniad am arfer llwgr a/neu anghyfreithlon o dan erthyglau 121 a/neu 122 o Orchymyn 2025.

1.11 Lle ceir ymgeisydd neu asiant yn euog o arfer llwgr neu anghyfreithlon, gallent wynebu carchar a/neu ddirwy. Byddent hefyd yn cael eu gwahardd rhag dal swydd etholedig am gyfnod o bum mlynedd mewn perthynas ag arfer llwgr a thair blynedd am arfer anghyfreithlon. Gall ethol yr ymgeisydd fod yn annilys.

## Y fframwaith cyfreithiol yng Ngorchymyn 2025 ar gyfer gwariant ymgeiswyr

**Treuliau etholiadol: Erthygl 65**

1.12 Mae erthygl 65 yn diffinio treuliau etholiadol fel a ganlyn:

*(1) Yn y Rhan hon ystyr "treuliau etholiad", mewn perthynas ag ymgeisydd unigol, yn ddarostyngedig i ddiffiniad "at ddibenion ethol yr ymgeisydd" yn erthygl 37(1), ac erthyglau 48(2) a 66, yw unrhyw dreuliau yr eir iddynt yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig mewn cysylltiad ag unrhyw fater a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 ac a ddefnyddir at ddibenion ethol yr ymgeisydd.*

*(2) Nid oes dim treuliau etholiad i'w hystyried fel rhai yr aed iddynt yn rhinwedd paragraff (1) neu erthygl 66 mewn cysylltiad ag unrhyw fater a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 7.*

*(3) At ddibenion y Rhan hon, eir i dreuliau etholiad gan ymgeisydd mewn etholiad i'r Senedd neu ar ei ran os eir iddynt—*

*(a) gan yr ymgeisydd neu asiant etholiad yr ymgeisydd, neu*

*(b) gan unrhyw berson a awdurdodir gan yr ymgeisydd neu gan asiant etholiad yr ymgeisydd i fynd iddynt.*

*(4) Yn y Rhan hon ac yn Rhan 4, mae unrhyw gyfeiriad at hyrwyddo neu beri ethol ymgeisydd mewn etholiad yn cynnwys gwneud hynny drwy niweidio rhagolygon etholiadol ymgeisydd arall neu blaid wleidyddol gofrestredig arall yn yr etholiad.*

*(5) Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch treuliau etholiad ymgeiswyr unigol mewn etholiad i'r Senedd.*

**Treuliau sydd wedi'u heithrio**

1.13 Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 yn rhestru'r materion sydd wedi'u 'heithrio' o fod yn 'dreuliau etholiadol' o fewn ystyr erthygl 65.

1.14 Mae Atodlen 7, paragraff 17 yn eithrio unrhyw wariant a ysgwyddwyd mewn perthynas ag unrhyw fater y gellir ei briodoli'n rhesymol i anabledd ymgeisydd.

1.15 Mae Atodlen 7, paragraff 18 yn eithrio gwariant a ysgwyddwyd mewn perthynas â, neu o ganlyniad i, gyfieithu rhywbeth o Gymraeg i Saesneg neu o Saesneg i Gymraeg.

1.16 Mae Atodlen 7, paragraff 19 yn eithrio unrhyw dreuliau rhesymol a ysgwyddwyd y gellir eu priodoli'n rhesymol i ddiogelu unigolion neu eiddo.

1.17 Mae Atodlen 7, paragraff 19A yn eithrio unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd neu a ad-delir yn unol â'r cynllun cymorth ariannol a sefydlwyd gan Reoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymru (Ymgeiswyr Anabl) 2025.

## Terfynau gwariant a chyfnodau ymgyrchu

1.18 Mae'r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiadol ymgeiswyr wedi'i gyfyngu gan Orchymyn 2025. Mae terfyn gwariant yn gymwys mewn perthynas â chyfnod penodol, y cyfeirir ato'n aml fel 'cyfnod a reoleiddir'.

## Asiantiaid

1.19 Rhaid i ymgeiswyr naill ai benodi asiant i oruchwylio eu gwariant neu weithredu fel eu hasiant eu hunain. Mae gan yr asiant gyfrifoldebau dros ysgwyddo a thalu am dreuliau etholiadol ymgeiswyr – gweler erthyglau 44 a 47 o Orchymyn 2025 yn y drefn honno.

## Gwariant tybiannol

1.20 Mae 'gwariant tybiannol' ar dreuliau etholiadol yn cyfrif tuag at derfyn gwariant ymgeisydd. Mae gwariant tybiannol yn codi o dan erthygl 66 pan fodlonir yr amodau a ganlyn:

Yr amod cyntaf yw:

- eiddo neu nwyddau yn cael eu trosglwyddo i'r ymgeisydd neu asiant etholiadol yr ymgeisydd yn rhad ac am ddim neu ar ddisgownt o fwy na 10 y cant o werth marchnadol yr eiddo neu'r nwyddau, neu

- eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn cael eu darparu at ddefnydd neu fudd yr ymgeisydd yn rhad ac am ddim neu ar ddisgownt o fwy na 10 y cant o'r gyfradd fasnachol am ddefnyddio'r eiddo neu ddarparu'r nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau

Yr ail amod yw:

- bod yr ymgeisydd, neu rywun ar ei ran, yn defnyddio'r eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y fath fodd fel y byddai wedi bod yn draul etholiadol pe bai wedi ysgwyddo'r gwariant.

1.21 Lle bodlonir yr amodau uchod, caiff 'swm priodol' ei drin fel treuliau etholiadol a ysgwyddir gan yr ymgeisydd os yw'n fwy na £50. Y swm priodol yw'r gyfran y gellir ei phriodoli'n rhesymol i ddefnydd yr eitem, o un ai:

- ei gwerth marchnadol (lle caiff ei throsglwyddo am ddim), neu

- gwerth y gostyngiad (lle mae rhywfaint o gost yr eitem yn cael ei hysgwyddo gan neu ar ran yr ymgeisydd).

Felly, y 'swm priodol' fydd y gwahaniaeth mewn gwerth rhwng gwerth masnachol yr hyn a ddarperir a'r hyn rydych yn ei dalu os yw dros £50.

1.22 Os yw'r eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau wedi cael eu defnyddio gan neu ar ran yr ymgeisydd, dim ond os yw'r eiddo, nwyddau ac ati a ddarparwyd wedi'u hawdurdodi gan yr ymgeisydd neu asiant yr ymgeisydd y bydd angen datgan y gwariant tybiannol fel traul etholiadol ar ffurflen yr ymgeisydd.

## Adrodd

1.23 Mae erthygl 54 yn ei gwneud yn ofynnol i asiant ymgeisydd gyflwyno ffurflen o dreuliau etholiadol. Mae erthygl 55 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiant a'r ymgeisydd wneud datganiad ynghylch cywirdeb y ffurflen.

1.24 O dan erthygl 55(6) a 56(4), mae person yn euog o arfer llwgr os yw'n gwneud datganiad ffug yn fwriadol.

# Pryd fydd treuliau yn cael eu hystyried fel rhai a ysgwyddwyd at ddibenion ethol ymgeisydd?

2.1 Ystyrir bod y rhestr o faterion yn Atodlen 7, Rhan 1 o Orchymyn 2025, fel y'i heglurir yn y Cod hwn, yn cael ei defnyddio 'at ddibenion ethol ymgeisydd' – ac felly, bydd treuliau cysylltiedig yr ysgwyddir yn 'dreuliau etholiadol' – pryd bynnag y'u defnyddir gyda'r bwriad o hyrwyddo neu gaffael ethol ymgeisydd, neu fel arall mewn cysylltiad â hynny.

2.2 Mae hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd yn cynnwys gwneud hynny drwy ragfarnu rhagolygon etholiadol ymgeisydd arall neu ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholaeth benodol.

2.3 Mae 'treuliau etholiadol' yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd. Rhaid adrodd ar gost yr holl eitemau a ddefnyddiwyd yn y cyfnod a reoleiddir yn y ffurflen ar gyfer yr ymgeisydd fel y bo'n briodol.

2.4 Mae'r enghreifftiau a nodir isod yn ymwneud â gwariant a awdurdodwyd gan yr ymgeisydd neu'r asiant ac yn ymwneud â gwariant tybiannol.

## Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol neu ddilynol

2.5 Mae'n rhaid adrodd cost lawn eitem sy'n bodloni'r meini prawf arferol yn y ffurflen yn yr etholiad y defnyddir yr eitem ynddo gyntaf. Ni ddylai cost eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad gan ymgeisydd gael ei dosrannu neu ei disgowntio gan y gallent neu gan y byddant yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad(au) dilynol.

2.6 Bydd cost eitemau a allai neu a fydd yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad cyntaf y byddant yn cael eu defnyddio.

2.7 Yn achos eitemau:

- y talwyd amdanynt yn llawn (perchnogaeth nid llogi)
- a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol
- a adroddwyd yn llawn yn y ffurflen gwariant ar gyfer yr ymgeisydd mewn etholiad blaenorol, ac
- nad ydynt wedi'u newid mewn unrhyw ffordd

nid oes rhaid adrodd am eu pris prynu yn y ffurflen gwariant ar gyfer yr un ymgeisydd mewn etholiad dilynol, ac nid ydynt yn cyfrif tuag at derfyn gwariant mewn etholiadau dilynol. Fodd bynnag, os bydd eitem yn cael ei hailddefnyddio gan ymgeisydd gwahanol mewn etholiad dilynol byddai hyn yn cael ei drin fel gwariant tybiannol.

2.8 Serch hynny, yn achos yr holl gostau a ysgwyddwyd wrth hwyluso ailddefnyddio eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- glanhau
- newid a/neu ychwanegu
- cynnal a chadw
- ailddatblygu

rhaid adrodd amdanynt ar ffurflen yr etholiad dilynol lle defnyddir yr eitemau unwaith eto.

2.9 Mae’r costau a ysgwyddwyd wrth hwyluso’r ailddefnydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad dilynol pan gânt eu hailddefnyddio.

## Eitemau heb eu defnyddio o gwbl

2.10 Nid yw eitemau y telir amdanynt ond nas defnyddir mewn etholiad yn dreuliau etholiadol oherwydd ni chânt eu defnyddio gyda’r bwriad o, neu mewn cysylltiad â, hyrwyddo’r ymgeisydd neu gaffael etholiad ymgeisydd. Felly, nid oes angen rhoi gwybod amdanynt yn y ffurflen.

## Treuliau a ysgwyddwyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir

2.11 Mae’n rhaid adrodd am dreuliau a ysgwyddwyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir, ar eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, yn y ffurflen. Felly, mae cost eitemau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir ond a brynwyd cyn dechrau’r cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

## TAW

2.12 Mae’n rhaid i’r treuliau yr adroddir amdanynt gynnwys TAW lle bo’n berthnasol, hyd yn oed lle gellir adennill TAW.

2.13 Os caiff TAW ei chodi ar eitem, mae’r swm TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant. Os nad yw TAW wedi’i hychwanegu at yr anfoneb ond ei bod yn dal yn daladwy, er enghraifft, os yw gwasanaethau wedi’u prynu gan gwmnïau sydd wedi’u lleoli y tu allan i’r DU, dylid ychwanegu TAW at y gost ar yr anfoneb a dylid ei hadrodd fel traul.

# Atodlen 7 i Orchymyn 2025

## Nodiadau cyffredinol

### Nid yw'r Cod hwn yn gynhwysfawr

3.1 Mae'r rhestrau isod yn faterion sy'n berthnasol at ddibenion pob categori yn Rhan 1 o Atodlen 7. Rhaid eu hadrodd ar ffurflen gwariant os ysgwyddir y treuliau, a chânt eu defnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd. Mae'r rhestrau'n gynhwysol ac nid ydynt yn gynhwysfawr.

### Gwariant tybiannol

3.2 Mae'r Cod hwn yn berthnasol i wariant tybiannol ar ran ymgeisydd yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i wariant a gaiff ei ysgwyddo gan ymgeisydd, oni nodir yn wahanol.

### Costau sydd wedi'u heithrio

3.3 Mae'r adran hon o'r Cod yn egluro Rhan 1 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025. Ni ddylid ystyried bod unrhyw beth ynddi yn addasu'r rhestr o eithriadau a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025, a atgynhyrchir isod.

*7. Talu unrhyw ernes sy'n ofynnol o dan reol 11 o Atodlen 5.*

*8. Cyhoeddi unrhyw fater, ac eithrio hysbyseb, sy'n ymwneud â'r etholiad mewn —*

*(a) papur newydd neu gyfnodolyn;*

*(b) darllediad a wneir gan y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig neu gan Sianel Pedwar Cymru, neu*

*(c) rhaglen a gynhwysir mewn unrhyw wasanaeth a drwyddedir o dan Ran 1 neu 3 o Ddeddf Darlledu 1990 (gwasanaethau teledu a radio annibynnol) neu Ran 1 neu 2 o Ddeddf Darlledu 1996 (darlledu teledu a sain daearol digidol).*

*9. Darparu unrhyw gyfleusterau a ddarperir yn unol ag unrhyw hawl a roddir i ymgeiswyr mewn etholiad gan y Gorchymyn hwn ac eithrio cyfleusterau y mae treuliau i'w talu mewn cysylltiad â hwy yn rhinwedd erthygl 71(6) (ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer cyfarfodydd etholiadau'r Senedd).*

*10. Darparu ei wasanaethau ei hun gan unigolyn pan fo'r unigolyn hwnnw yn eu rhoi o'i wirfodd yn ei amser ei hun a heb dâl.*

*11. Llety sy'n unig neu'n brif breswylfa i'r ymgeisydd.*

*12. Darparu llety gan unrhyw unigolyn arall sy'n unig neu'n brif breswylfa i'r unigolyn hwnnw os darperir y llety am ddim.*

*13. Cludiant drwy gyfrwng modd o gludo a sicrhawyd gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddibenion personol yr ymgeisydd ei hun.*

*14. Cludiant a ddarperir am ddim gan unrhyw unigolyn arall os cafodd y modd o gludo ei sicrhau gan yr unigolyn hwnnw yn bennaf at ddibenion personol yr unigolyn ei hun.*

*15. Offer cyfrifiaduro neu argraffu a sicrhawyd gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddibenion personol yr ymgeisydd ei hun.*

*16. Darparu offer cyfrifiaduro neu argraffu gan unrhyw unigolyn arall a sicrhawyd gan yr unigolyn hwnnw yn bennaf at ddibenion personol yr unigolyn ei hun os darperir yr offer am ddim.*

*17. — (1) Unrhyw fater y mae'n rhesymol ei briodoli i anabledd yr ymgeisydd, i'r graddau yr eir i'r treuliau mewn cysylltiad â'r mater mewn modd rhesymol.*

*(2) Yn y paragraff hwn, mae i "anabledd" yr un ystyr â "disability" yn adran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.*

*18. Treuliau yr eir iddynt mewn cysylltiad â chyfieithu unrhyw beth o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg, neu o ganlyniad i hynny.*

*19. Diogelu personau neu eiddo, i'r graddau yr eir i'r treuliau yn rhesymol ac y gellir eu priodoli yn rhesymol i ddiogelu personau neu eiddo.*

*19A. Mater y mae treuliau yn cael eu talu neu eu had-dalu mewn cysylltiad ag ef yn unol â'r cynllun cymorth ariannol a sefydlir gan Reoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025 (O.S. 2025/897 (Cy. 157)) (i'r graddau nad yw'r mater yn dod o fewn paragraff 17).*

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 1

*Hysbysebion o unrhyw natur, beth bynnag fo'r cyfrwng a ddefnyddir, gan gynnwys treuliau mewn cysylltiad â ffioedd asiantaeth, costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â llunio, cynhyrchu neu ddosbarthu hysbysebion o'r fath neu eu lledaenu fel arall neu unrhyw beth sy'n ymgorffori hysbysebion o'r fath ac y bwriedir ei ddosbarthu er mwyn eu lledaenu.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, safleoedd, cyfleusterau neu gyfarpar a ddarperir gan eraill**

4.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i:

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd ar gyfer hysbyseb
- lledaenu deunydd hysbysebu drwy ddosbarthu neu fel arall

4.2 Er enghraifft, llogi ffotograffydd a safle i gynhyrchu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysebu.

**Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

4.3 Mae'n cynnwys cost meddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais i:

- ddylunio a chynhyrchu deunydd hysbysebu yn fewnol
- lledaenu neu hwyluso'r broses o ledaenu deunydd hysbysebu

p'un a gaiff y deunydd hwnnw ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill.

4.4 Er enghraifft, ffi drwyddedu neu feddalwedd i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais.

4.5 Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd hysbysebu digidol neu electronig
- dosbarthu neu hwyluso'r broses o ledaenu'r deunydd hysbysebu hwnnw mewn unrhyw ffordd

gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

4.6 Er enghraifft, prynu lle mwy blaenllaw ar dudalen mewn chwilotwr.

4.7 Mae'n cynnwys cost paratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd hysbysebu:

- ei lawrlwytho a'i ddefnyddio gan eraill
- i'w rannu ar unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol neu i hyrwyddo'r ymgeisydd drwy ddull o'r fath

4.8 Er enghraifft, costau cynhyrchu deunydd hysbysebu yn hyrwyddo'r ymgeisydd a gaiff ei rannu ar dudalen ar sianel cyfryngau cymdeithasol yn annog dilynwyr i'w rannu.

4.9 Mae'n cynnwys cost cyrchu, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n:

- hwyluso'r broses o ddosbarthu neu ledaenu deunydd hysbysebu drwy unrhyw ddull
- hyrwyddo deunydd hysbysebu neu'n ei wneud yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

4.10 Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel petai wedi cael ei weld a'i gymeradwyo gan nifer mawr o ddefnyddwyr ar lwyfan y cyfryngau cymdeithasol.

4.11 Mae'n cynnwys costau:

- lletya a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd
- dylunio ac adeiladu'r wefan
- cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd sy'n cael ei sefydlu i godi arian ar gyfer yr ymgeisydd ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir

### Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 1

4.12 Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd hysbysebu.

4.13 Mae'n cynnwys cost:

- papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd hysbysebu yn cael ei argraffu arno
- arddangos hysbysebion yn ffisegol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft clymau neu lud i osod posteri

4.14 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

a ddefnyddir yn ystod ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd, heblaw lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio

4.15 Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i'w ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae'n rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

4.16 Mae 'defnydd personol' ym mharagraff 4.14 yn golygu defnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu'r unigolyn, nid defnydd at ddibenion masnachol.

4.17 Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw gyfarpar arall mewn perthynas â:

- pharatoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

4.18 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2

*Deunydd digymell a gyfeirir at etholwyr, pa un a gyfeirir ef atynt yn ôl eu henw neu y’i bwriedir i’w ddanfon i aelwydydd o fewn unrhyw ardal benodol, gan gynnwys treuliau mewn cysylltiad â chostau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â llunio, cynhyrchu neu ddosbarthu’r deunydd hwnnw, gan gynnwys cost postio.*

## Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau sy’n gysylltiedig â chael gwybodaeth a thargedu neu nodi pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data**

5.1 Mae hyn yn cynnwys cost cyrchu, cael, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data o fanylion cyswllt
- unrhyw wybodaeth, drwy ba ddull bynnag

a ddefnyddir i hwyluso’r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

5.2 Er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost.

5.3 Mae’n cynnwys cost cyrchu, cael neu ddatblygu setiau data, gan gynnwys dadansoddeg data i dargedu pleidleiswyr drwy ba ddull bynnag, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu bobl eraill sy’n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba ddull bynnag.

5.4 Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a gaiff ei thalu i ddadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol er mwyn hwyluso’r broses o dargedu pleidleiswyr mewn ardal etholiadol benodol a chost modelu gan asiantaeth sy’n seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw.

5.5 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i nodi pleidleiswyr sy’n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

5.6 Lle ceir gwybodaeth neu fynediad at wybodaeth gan drydydd parti, mae cost fasnachol cael yr wybodaeth honno gan y trydydd parti wedi’i chynnwys.

**Costau sy’n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu neu ddosbarthu deunydd digymell i bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol**

5.7 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i:

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r deunydd digymell
- lledaenu’r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall, gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y deunydd yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

5.8 Mae’n cynnwys cost dosbarthu deunydd drwy unrhyw ddull gan gynnwys dulliau electronig neu ddosbarthu’r deunydd yn ffisegol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system ar gyfer anfon negeseuon e-bost.

5.9 Mae’n cynnwys cost cyrchu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy’n hyrwyddo deunydd digymell ar unrhyw lwyfan neu sy’n ei wneud yn fwy gweladwy ar unrhyw lwyfan. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn talu datblygwr i greu ap sy’n hwyluso’r broses o dargedu ei ddeunydd ar sianel cyfryngau cymdeithasol.

5.10 Mae’n cynnwys cost goruchwylio a chynnal pob cyfrwng cymdeithasol, dull digidol neu ddulliau eraill o ddosbarthu deunydd digymell. Mae hyn yn cynnwys cynnal pob cyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys os yw’n cael ei gynnal gan endid/unigolyn arall.

### Costau eraill sydd wedi’u cynnwys yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2

5.11 Mae’n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd digymell.

5.12 Mae’n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae’r deunydd digymell yn cael ei argraffu arno.

5.13 Mae’n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- offer llungopïo
- offer argraffu

a ddefnyddir yn ystod ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd, heblaw lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun
- mae’n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i’w ddefnyddio

5.14 Mae ‘defnydd personol’ ym mharagraff 5.13 yn golygu defnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu’r unigolyn, nid defnydd at ddibenion masnachol.

5.15 Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i’w ddefnyddio’n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae’n rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

5.16 Mae’n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw gyfarpar arall mewn perthynas â:

- pharatoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd digymell
- lledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall

5.17 Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â deunydd digymell i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 2

5.18 Nid yw'n cynnwys cost postio'r anerchiad etholiadol am ddim fel yr amlinellir yn erthygl 67 o Orchymyn 2025.

5.19 Nid yw'n cynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chael data fel y'i caniateir drwy statud neu reoliad.

5.20 Er enghraifft, mae gan ymgeiswyr hawl i gopi o'r gofrestr etholiadol drwy reoliad 102 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 3

*3. Cludo personau, mewn unrhyw fodd, i unrhyw le, gan gynnwys treuliau mewn cysylltiad â chostau llogi modd o gludo am gyfnod penodol.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

6.1 Mae'n cynnwys cost cludo ar gyfer yr asiant lle mae'r ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ei ad-dalu.

### Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr

6.2 Mae'n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- ymgyrchwyr eraill

o gwmpas yr ardal etholiadol, neu i'r ardal etholiadol ac oddi yno, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant, gan gynnwys unrhyw ffi archebu
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynir ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

lle maent yn ymgyrchu ar ran yr ymgeisydd.

6.3 Mae'n cynnwys cost cludiant y telir amdano gan unrhyw unigolyn neu drydydd parti arall ac y bydd yr ymgeisydd neu drydydd parti yn ei thalu neu'n ei had-dalu, lle roedd yr unigolion a oedd yn cael eu cludo yn ymgyrchu neu'n ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch ar ran yr ymgeisydd.

### Cludiant i ddigwyddiad

6.4 Mae'n cynnwys costau cludo'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiad sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd lle mae'r ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

### Cludiant sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd

6.5 Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy'n arddangos deunydd sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â:

- dylunio cynllun a'i osod ar y cerbyd neu'r math o gludiant
- gyrru neu symud cerbyd o amgylch ardal etholiadol benodol
- ffioedd parcio lle defnyddir cerbyd i arddangos deunydd

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 3

6.6 Nid yw'r costau canlynol wedi'u cynnwys ym mharagraff 3:

- lle telir y gost gan yr unigolyn a ddefnyddiodd y cludiant, lle na chaiff y taliad hwnnw ei ad-dalu, neu
- lle darperir y cludiant yn ddi-dâl gan unrhyw unigolyn arall os cafodd y dull cludo ei gaffael gan y person hwnnw yn bennaf at ei ddefnydd personol ei hun

6.7 Lle bo cost cludiant yn draul bersonol o fewn ystyr Gorchymyn 2025 ar gyfer yr ymgeisydd, ac yn cael ei thalu gan yr ymgeisydd, rhaid cofnodi hon fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant. Mae *'treuliau personol'* yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd, at ddibenion yr etholiad ac mewn perthynas ag ef.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 4

*Cyfarfodydd cyhoeddus, o unrhyw fath, gan gynnwys treuliau mewn cysylltiad â chostau yr eir iddynt mewn cysylltiad â phresenoldeb personau yn y cyfarfodydd hynny, llogi mangreoedd at ddibenion y cyfarfodydd hynny neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Gwasanaethau, safleoedd, cyfleusterau neu gyfarpar a ddarperir gan eraill**

7.1 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- offer

a ddefnyddir i:

- hyrwyddo cyfarfod cyhoeddus
- chynnal cyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo'r ymgeisydd
- ffrydio cyfarfod cyhoeddus yn fyw neu ei ddarlledu drwy unrhyw ddull

**Costau eraill sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 4**

7.2 Mae'n cynnwys cost hyrwyddo neu hysbysebu'r digwyddiad, drwy unrhyw ddull.

7.3 Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei gynnal drwy ddolen o unrhyw fath neu sy'n cael ei ffrydio'n fyw neu ei ddarlledu, pan fo'r digwyddiad hwnnw yn agored i'w weld gan ddefnyddwyr sianel neu lwyfan neu drwy ddull arall.

7.4 Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.

7.5 Mae'n cynnwys cost prynu unrhyw gyfarpar mewn perthynas â:

- chynnal cyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo'r ymgeisydd
- ffrydio cyfarfod cyhoeddus yn fyw neu ei ddarlledu drwy unrhyw ddull

7.6 Mae'n cynnwys cost llety a threuliau eraill i unrhyw un sy'n bresennol lle mae'r ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 5

*Gwasanaethau asiant etholiad neu unrhyw berson arall y cymerir ei wasanaethau ymlaen mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.*

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau asiantiaid**

8.1 Mae hyn yn cynnwys unrhyw gydnabyddiaeth, gan gynnwys lwfansau, a delir i'r asiant.

**Staff sy'n monitro cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â'r wasg**

8.2 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli a monitro'r cyfryngau cymdeithasol a chael data er mwyn targedu gweithgarwch ymgyrchu. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff i ddadansoddi a didoli'r data a chost staff i fonitro unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu gyfrif arall, ac i gyhoeddi ar gyfryngau o'r fath neu ymateb iddynt.

8.3 Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli gweithgareddau gyda'r wasg o unrhyw fath, gan gynnwys staff sy'n cydgysylltu ag unrhyw fath o weithgarwch yn y cyfryngau drwy unrhyw ddull, neu ei reoli neu ei fonitro mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.

**Unrhyw un arall lle defnyddir ei wasanaethau**

8.4 Mae'n cynnwys cost unrhyw un arall lle defnyddir ei wasanaethau mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 5

8.5 Nid yw'n cynnwys cost gwasanaethau asiant nac unrhyw berson arall sy'n gwirfoddoli.

# Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 6

| |
|---|
| *Costau llety a chostau gweinyddol.* |

## Mae'r paragraff hwn yn cynnwys:

**Swyddfa a chyfarpar**

9.1 Mae hyn yn cynnwys cost rhentu swyddfa, gan gynnwys ardrethi busnes, ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, boed yn swyddfa a gaiff ei rhentu o'r newydd neu o dan gytundeb rhent presennol, ac felly eir i gostau tybiannol lle darperir y fath swyddfa am ddim neu am bris gostyngol.

9.2 Mae'n cynnwys cost swyddfa lle mae'r swyddfa honno yn cael ei rhannu. Mae'n rhaid dosrannu'r gost ac mae'n rhaid i swm, sy'n adlewyrchu'n rhesymol y defnydd gan yr ymgeisydd yn ystod yr ymgyrch, gael ei gynnwys yn y ffurflen i'r ymgeisydd. Bydd y swm hwn yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

9.3 Mae'n cynnwys cost prynu, defnyddio neu logi unrhyw gyfarpar swyddfa cyffredinol ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, ac felly eir i gostau tybiannol lle darperir y fath gyfarpar am ddim neu am bris gostyngol.

9.4 Er enghraifft, desgiau, cadeiriau a chyfrifiaduron a ddarperir gan blaid i'w defnyddio yn ymgyrch yr ymgeisydd.

9.5 Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- ffonau symudol neu ddyfeisiau llaw eraill
- y contractau cysylltiedig

i'w defnyddio yn yr ymgyrch gan yr ymgeisydd, asiant ac unrhyw staff neu wirfoddolwyr, lle mae'r ymgeisydd neu drydydd parti sy'n talu am y cyfarpar hwnnw a/neu gostau cysylltiedig heblaw:

- lle prynodd yr ymgeisydd y cyfarpar yn bennaf at ei ddefnydd personol ei hun ac nad yw'r costau uwchlaw'r hyn yr eid iddynt fel arfer y tu allan i gyfnod etholiadol.

- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun, nid yw'r costau uwchlaw'r hyn yr eid iddynt fel arfer y tu allan i gyfnod etholiadol, ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio.

Rhai enghreifftiau o gostau sy'n gysylltiedig â ffonau symudol:

- Os prynir cerdyn SIM â lwfans data a galwadau i ymgeisydd ar gyfer ei ymgyrch, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os defnyddir ffôn symudol gwirfoddolwr i gydlynu gwirfoddolwyr eraill, ac y caiff cyfran o daliadau'r contract ei had-dalu gan yr ymgeisydd i'r gwirfoddolwr, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ei ffôn ei hun a brynwyd ganddo at ddibenion personol, ac nad eir i unrhyw gostau pellach y tu hwnt i gostau misol arferol galwadau, data ac ati, nid yw hyn yn cyfrif fel gwariant

9.6 Mae 'defnydd personol' ym mharagraff 9.5 yn golygu defnydd personol parhaus gan yr ymgeisydd neu'r unigolyn, nid defnydd at ddibenion masnachol.

**Gorbenion**

9.7 Mae'n cynnwys cost:

- trydan
- llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

i'w defnyddio yn ystod ymgyrch yr ymgeisydd.

9.8 Mae'n cynnwys cost tanysgrifio ar gyfer gwasanaethau monitro'r cyfryngau a gwasanaethau datganiadau i'r wasg a gwifren y wasg.

**Costau sy'n gysylltiedig ag asiantiaid, gwirfoddolwyr a chyflogeion**

9.9 Mae'n cynnwys cost llety i'r asiant, lle mae'n cael ei had-dalu gan yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

9.10 Mae'n cynnwys cost gwirfoddolwyr a gweithwyr sy'n ymgyrchu dros yr ymgeisydd mewn ardal etholiadol benodol, gan gynnwys eu costau llety os ydynt yn cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

## Costau sydd wedi'u heithrio o Atodlen 7, Rhan 1, paragraff 6

9.11 Nid yw'n cynnwys cost gofal plant i ymgeisydd na'i asiant na gwirfoddolwr.

9.12 Nid yw'n cynnwys cost dŵr, nwy na'r dreth gyngor.

9.13 Nid yw'n cynnwys llety a ddarperir gan unrhyw unigolyn arall sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r unigolyn os caiff ei ddarparu'n ddi-dâl.